## North Wales: Entry Level

## Unit 14: Discussing ill health / Scene 1: Man flu?
The girls take over the boys' weekend

**SIÂN:** Dyma ti.
Here you are.

**ED:** Dw i ddim isio cinio.
I don't want lunch.

**SIÂN:** Ond mae'r bws yn mynd mewn munud.
But the bus is leaving in a minute.

**ED:** Dw i ddim yn mynd ar y bws. Dw i ddim yn mynd ar y fferi. Dw i ddim yn mynd i Iwerddon.
I'm not going on the bus. I'm not going on the ferry. I'm not going to Ireland.

**SIÂN:** Ddim yn mynd i Iwerddon?
Not going to Ireland?

**ED:** Dw i'n sâl. Mae gen i ffliw.
I'm ill. I've got the flu.

**SIÂN:** Y ffliw?
The flu?

**ED:** Ia. Y ffliw. Mae gen i ffliw.
Yes. The flu. I've got the flu.

**SIÂN:** Ffliw, wir! Mae gen ti annwyd. Tipyn bach o annwyd. Dim ffliw!
The flu, indeed! You've got a cold. A little bit of a cold. Not the flu!

**ED:** Mae gen i ffliw. Dw i'n sâl iawn, a dw i ddim yn mynd i Iwerddon.
I've got the flu. I'm very ill, and I'm not going to Ireland.

**SIÂN:** S'mae. Newyddion drwg, mae'n ddrwg gen i.
Hi. Bad news, I'm afraid.

**MARIAN:** Newyddion drwg?
Bad news?

**SIÂN:** Ia. Dydy Ed ddim yn mynd i Iwerddon.
Yes. Ed's not going to Ireland.

**MARIAN:** Ddim yn mynd i Iwerddon?
Not going to Ireland?

**SIÂN:** Nac ydy. Mae gynno fo ffliw.
No, he's not. He's got the flu.

**ED:** Oes. Mae gen i ffliw.
Yes. I've got the flu.

**MARIAN:** Mae gen i newyddion drwg hefyd. Dydy Geraint ddim yn mynd i Iwerddon chwaith. Mae gynno fo'r ddannodd.
I've got some bad news as well. Geraint's not going to Ireland either. He's got a toothache.

**SIÂN:** Y ddannodd? O diar.
Toothache? Oh dear.

**MARIAN:** Wel. Mae gan Ed ffliw ac mae gan Geraint y ddannodd. A sut wyt ti, Siân?
Well. Ed's got the flu and Geraint's got a toothache. And how are you, Siân?

**SIÂN:** Dw i'n iawn, diolch. Does dim byd yn bod arna i. A sut wyt ti, Marian?
I'm fine, thanks. There's nothing wrong with me. And how are you, Marian?

**MARIAN:** Grêt, diolch. Does dim byd yn bod arna i chwaith.
Great, thanks. There's nothing wrong with me either.

**SIÂN:** Reit, dw i'n mynd i bacio.
Right. I'm going to pack.

**MARIAN:** A fi.
And me.

**ED:** Pacio? Pam? Lle dach chi'n mynd?
Pack? Why? Where are you going?

**SIÂN:** I Iwerddon, wrth gwrs. Dan ni'n mynd i weld y rygbi!
To Ireland, of course. We're going to see the rugby!

 © Copyright 2008